



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Yr Iaith Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol 2016–2017

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru

Crynodeb Gweithredol – Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2016–17

Croeso i grynodeb ein Hadroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2016–17. Dyma'r pedwerydd adroddiad wedi'i baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos y cynnydd a wnaed wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2016–17. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Daeth Safonau'r Gymraeg yn weithredol yn ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017, ac maent yn adlewyrchu'r ymroddiad a wnaed yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Rydym yn croesawu'r Safonau a'r cyfleoedd maent yn dod â nhw i gynyddu'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu darparu ar gyfer y cyhoedd a'n staff ein hunain.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg fel a ganlyn:-

- Gweithio tuag at sefydlu ein hunain yn sefydliad naturiol ddwyieithog yn ein holl weithleoedd, pan fyddwn yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd, pan fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid, ac o fewn ein gweinyddiaeth fewnol ni.
- Annog ein gweithlu i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'n hymroddiad ni i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad dwyieithog.
- Cynyddu'n gyson cyfran y staff ar bob lefel sy'n meddu ar y gallu a'r hyder i siarad ac i ysgrifennu Cymraeg, er mwyn cyflawni'r mesurau sydd yn y Safonau.
- Cynyddu nifer yr arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd amgylcheddol a gwyddonol sy'n gysylltiedig â'n gwaith ni.
- Ceisio cyfleoedd i hyrwyddo ac i ddatblygu'r Gymraeg yn rhagweithiol trwy weithio gyda phartneriaid ac unigolion ar draws sector yr amgylchedd a'r tu hwnt, ac i annog arferion dwyieithog da.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r sefydliad wedi bod yn paratoi ar gyfer y Safonau, gan atgoffa staff o'r gofynion a sicrhau bod cymorth ar waith er mwyn i'n staff ni weithio'n ddwyieithog.

Mae ein systemau TGCh cyhoeddus a mewnol wedi cael eu harchwilio o ran gofynion y Gymraeg, a chrëwyd cynllun gweithredu yn unol â blaenoriaethau busnes. Mae nifer o'n systemau TGCh wedi cael eu symud i'n System Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid ganolog, sy'n cynnwys swyddogaeth ar gyfer nodi iaith ddewisol ein cwsmeriaid. Mae'r swyddogaeth hon yn helpu ein sefydliad i ddarparu gwasanaeth yn iaith ddewisol ein cwsmeriaid. Bydd rhagor o'n systemau'n parhau i gael eu symud i'r system hon dros y misoedd nesaf.

Mae ein gwefan wedi cael ei haildylunio i wneud yr holl dudalennau cynnwys ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gydag opsiwn i ddewis yr un iaith neu'r llall ar bob tudalen.

Eleni mae ein Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg wedi cynorthwyo 315 o'n staff ni i ddatblygu eu sgiliau iaith ar wahanol lefelau. Llwyddodd 54 aelod o staff i sefyll a phasio eu harholiadau Cymraeg. Rydym yn falch iawn o'n dysgwyr a, chyda chymorth ein Cynllun Mentora, maent yn gallu ymarfer y sgiliau maent newydd eu hennill mewn modd anffurfiol gyda siaradwr Cymraeg arall. Mae'r Cynllun Mentora'n helpu i fagu'r hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle.

Gwnaethom ennill gwobr Cymraeg yn y Gweithle – Cleient y Flwyddyn gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru, am y cymorth a'r amser rydym yn eu rhoi i

ganiatáu i staff ddatblygu eu sgiliau iaith yn ystod oriau gwaith. Dyma'r ail flwyddyn rydym wedi ennill y wobr hon. Y llynedd gwnaethom dderbyn yr un wobr gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd.

Lyn Williams

Cynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg

Cynnwys

Crynodeb	2
Gweithredol.....	2
Cyflwyniad	5
Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg 2016–17.....	5
Paratoi a Lansio Safonau'r Gymraeg....	8
Adroddiad Monitro Blynyddol 2016–17.....	9
Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg.....	9
Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun/Safonau.....	10
Sgiliau Iaith Gymraeg.....	15
Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg.....	18
Dadansoddi Perfformiad.....	20
Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg.....	22
Cynllun Gweithredu (Atodiad 1).....	23

Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae gan sefydliadau cyhoeddus ddyletswydd statudol i baratoi a chyflwyno Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â safonau ymddygiad yn yr iaith Gymraeg. Daeth y safonau hyn yn weithredol ar gyfer ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017 a gwnaethant ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Dyma fydd y pedwerydd Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth weithredu'n Cynllun yn ystod blwyddyn ariannol 2016–17. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf mewn perthynas â'r Gymraeg.

Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg 2016–17

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i weithredu'r Cynllun yn ein holl weithleoedd, wrth sicrhau ar yr un pryd bod ein sefydliad yn barod i'r Safonau ddod yn weithredol ar 25 Ionawr 2017.

Parhaodd y flwyddyn hon i fod yn gyfnod o newid mewnol gyda'r Adolygiad Uwch-reolwyr a'r Adolygiadau Maes Busnes. Roedd y ddau adolygiad yn ystyried lle'r iaith Gymraeg yn y broses o wneud penderfyniadau, i sicrhau nad oedd yr un o'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd neu i'n staff.

I sicrhau bod y Safonau'n dod yn weithredol, gwnaethom ganolbwyntio ein hymdrechion ar atgoffa staff am ein dyletswyddau o fewn y Cynllun, gan drafod unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau sydd eu hangen i symud o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg, i sicrhau eu bod nhw i gyd ar waith erbyn 25 Ionawr 2017.

Mae'r gwaith a wnaed wrth weithredu'r Cynllun yn cael ei amlinellu isod:-

TGCh

- Cynhaliwyd archwiliad o gapasiti dwyieithog ein holl systemau, a oedd yn cynnwys systemau cyhoeddus a systemau mewnol. Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Gofynion y Gymraeg yn y cyfarwyddyd TGCh sydd eisoes ar waith. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys matrices sgorio i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i systemau cyhoeddus, ynghyd â systemau mewnol lle y gwneir gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd a systemau mewnol a ddefnyddir gan yr holl staff neu nifer uchel o staff, wrth sicrhau capasiti dwyieithog. Defnyddir yr un matrices sgorio wrth gaffael systemau newydd neu ddatblygu'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae cynllun gweithredu TGCh wedi cael ei greu yn unol â blaenoriaethau busnes.
- Mae System Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid ganolog ar waith, sy'n cynnwys swyddogaeth ar gyfer nodi iaith ddewisol cwsmeriaid. Mae nifer o'n systemau TGCh ni eisoes yn defnyddio'r system ganolog hon, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith wedi cael ei gwblhau i symud rhagor o'n systemau i'r System Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid. Bydd hyn yn ein helpu i gofnodi iaith ddewisol ein cwsmeriaid. Bydd y gwaith o symud rhagor o systemau i'r System Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid yn parhau.

- Lansiwyd Cyfeirlyfr Pobl, cyfeirlyfr staff y gellir ei chwilio sydd ar gael i bob aelod o staff. Gall staff nodi eu dewis o ran y Gymraeg a lefel eu gallu yn y cyfeirlyfr hwn, ac mae'n offeryn defnyddiol ar gyfer yr holl staff pan fyddant yn cyfathrebu â staff sy'n siarad Cymraeg, ac yn ymdrin â galwadau ffôn Cymraeg ac ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg. Chwaraeodd aelod o'r Grŵp Pencampwyr TGCh rôl hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod y system hon yn cynnwys swyddogaeth iaith Gymraeg.

Cyfieithu

- Cynhaliodd y Tîm Cyfieithu a Chynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg nifer o sesiynau hyfforddi mewn defnyddio pecyn cymorth cyfieithu Bing/Word, ynghyd â chymorth Cysill/Cysgeir ar waith. Roedd yr hyfforddiant ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl i'w cynorthwyo yn eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Croesawyd y pecyn cymorth hwn ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i nifer o staff, gan eu helpu i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gwaith. Mae'r Tîm Cyfieithu yn hapus i roi cymorth ac i brawfddarllen gwaith yn ôl yr angen.
- I sicrhau cysondeb yn y gwaith sy'n cael ei anfon at gyfieithwyr allanol, mae'r tîm wedi sicrhau bod yr holl gyfieithwyr allanol yn defnyddio cyhoeddiadau Enwau a Therminoleg Cymdeithas Edward Llwyd. Mae hyn i sicrhau y defnyddir enwau Cymraeg cywir, cydnabyddus a safonol wrth enwi planhigion, anifeiliaid a choed yn Gymraeg.
- Mae Cynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg a'r Tîm Cyfieithu'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod cyhoeddiadau'n cael eu cyfieithu'n unol â gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg a'r Safonau sydd ar waith.
- Mae Rhestr Wirio a Chyfarwyddyd Cyfieithu newydd ar waith ar gyfer lansio'r Safonau.

Y Tîm Cyfleusterau

- Mae hysbysfyrdau neilltuedig wedi cael eu rhoi ym mhob un o'n swyddfeydd i hysbysebu cyrsiau Cymraeg, y Cynllun Mentora, gair yr wythnos, a gwybodaeth newydd i dynnu sylw at y Safonau.
- Trefnwyd cyfarfod Skype ar gyfer y Tîm Cyfleusterau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Safonau sydd yn yr arfaeth. Wedyn, pasiwyd y wybodaeth hon i aelodau eraill o'r Tîm Cyfleusterau sy'n gweithio mewn derbynfydd ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae posteri ac arnynt gyfarwyddyd hanfodol ynglŷn â Safonau'r Gymraeg wedi cael eu rhoi ym mhob un o'n swyddfeydd ni i atgoffa staff o'n dyletswydd iaith Gymraeg.

Recriwtio

- Mae lefel y Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer pob swydd wag newydd wedi parhau i gael ei hasesu gan y Rheolwr Recriwtio, wedi'i chytuno gyda Chynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg, cyn i'r swydd gael ei hysbysebu. Mae hyn yn dilyn ein cyfarwyddyd Staffio a Recriwtio ac yn ystyried gofynion a natur y rôl, yn ogystal â nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn y tîm.
- Cafodd y rhan fwyaf o'r swyddi gwag eu hysbysebu'n fewnol. Ar gyfer rhai swyddi gwag lle mae gallu yn y Gymraeg yn bodoli eisoes yn y tîm, ond teimlid y byddai'r rôl neu'r tîm yn elwa ar sgiliau iaith Gymraeg ychwanegol, mae swydd wedi cael ei hysbysu sy'n cynnig datblygiad i lefel iaith Gymraeg benodedig yn amod penodi. Mae'r lefel yn cael ei datblygu trwy ein Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg.

Cafodd 252 rôl eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:-

- Lefel 4 (siaradwr Cymraeg rhugl) = 35
- Lefel 4 gyda'r bodlonrwydd i ddysgu (siaradwr Cymraeg rhugl) = 3
- Lefel 3 (y gallu i siarad yn hyderus am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith) = 11
- Lefel 3 gyda'r bodlonrwydd i ddysgu (y gallu i siarad yn hyderus am faterion sy'n gysylltiedig â'r gwaith) = 26
- Lefel 1 (y gallu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac ynganu enwau lleoedd Cymru'n gywir) = 177

O ganlyniad i raglenni newid sy'n cael eu cynnal ar draws y sector a chyflenwi swyddi staff sydd ar absenoldeb mamolaeth, cafodd y rhan fwyaf o'r swyddi eu hysbysebu ar gontract Penodiad am Gyfnod Penodol o lai na dwy flynedd.

Grŵp Pencampwyr

- Mae'r Grŵp Pencampwyr wedi cynnal pedwar cyfarfod yn ystod y flwyddyn i drafod y Safonau sydd yn yr arfaeth. Cynhaliwyd tri ohonynt trwy Skype ac un wyneb yn wyneb. Mae swyddogaeth Skype wedi galluogi'r aelodau i gymryd rhan yn yr holl drafodaethau.
- Mae cwpl o aelodau newydd wedi ymuno â'r grŵp yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal rhwng yr aelodau newydd a Chynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg i sicrhau eu bod yn deall gwaith y grŵp yn ogystal â'r ddeddfwriaeth sydd ar waith.

Gellir gweld enghreifftiau o'r gwaith a wnaed gan y Pencampwyr isod:-

- Gwnaeth y Pencampwr ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu, ar y cyd â chydweithwyr o'r tîm, ddylunio poster ar gyfer yr holl staff sy'n seiliedig ar ein dogfen Cyfarwyddyd Hanfodol. Mae'r poster i'n ganllaw cyflym i hysbysu staff am yr hyn mae angen iddynt ei ystyried mewn perthynas â'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Gall staff argraffu'r poster a rhoddwyd copïau ar yr hysbysfyrddau iaith Gymraeg yn ein swyddfeydd.
- Mae un o'r Pencampwyr yn anfon 'Gair y Dydd' i'n Cydlynnydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg i'w ddsbarthu i bawb sy'n dysgu'r iaith.
- Yn ein swyddfa yn Llanymddyfri, mae'r holl gyfarfodydd yn dechrau ac yn gorffen yn ddwyieithog ac mae'r holl e-byst a anfonir at staff o fewn y swyddfa'n ddwyieithog.
- Mae Pencampwyr yn helpu staff o fewn eu cyfarwyddiaethau a'u swyddfeydd gyda negeseuon allan o'r swyddfa a negeseuon peiriant ateb dwyieithog.
- Mae gwasanaethau TGCh yn ceisio gwella eu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer staff trwy eu desg gwasanaeth trwy sicrhau yr ymdrinnir â galwad Gymraeg yn gyfan gwbl yn Gymraeg.
- Mae gwasanaethau TGCh yn diweddarau'r Cyfeirlyfr Pobl yn rheolaidd i sicrhau bod y cofnodion o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys lefel eu swydd a lleoliad eu swyddfa, yn gyfredol.
- Mae'r Pencampwr ar gyfer ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid wedi sicrhau bod yr holl rolau Uwch-gynghorydd o fewn y ganolfan yn cael eu cyflawni gan staff dwyieithog, gyda rhai o'r cynghorwyr yn gweithredu fel mentoriaid i ddysgwyr yn ein Swyddfa Tŷ Cambria.

Paratoi a Lansio Safonau'r Gymraeg

Daeth Safonau'r Gymraeg yn weithredol ar gyfer ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017, a gwnaethant ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg a oedd wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2013. Cafodd ein Cynllun Iaith Gymraeg ei ysgrifennu gyda'r Safonau mewn golwg ac, o ganlyniad, roedd y broses o drosglwyddo o weithredu cynllun i weithredu'r Safonau'n weddol syml, gyda'r angen am ddiwygiadau ac ychwanegiadau bach yn unig.

Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom dderbyn ein Hysbysiad Cydymffurfio drafft gan Gomisiynydd y Gymraeg, a chynhaliwyd archwiliad i sicrhau roeddem yn gallu cydymffurfio â'r Safonau a nodwyd yn yr hysbysiad drafft.

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r gwaith a oedd ei angen i gyflawni pob un o'r Safonau yn yr Hysbysiad Cydymffurfio drafft i benderfynu a oedd y gofyniad yn cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gyflawnadwy. Yn ôl canlyniadau'r dadansoddiad, roedd Safon 36 yn afresymol yn ein tyb ni. Roedd Safon 36 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi'r holl ddogfennau a wneir ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg. Gan inni gyhoeddi nifer uchel o adroddiadau a dogfennau technegol ar gyfer cynulleidfa arbenigol gyfyngedig, penderfynwyd herio Safon 36, gyda thystiolaeth i gyfiawnhau ein her. Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg ein her ac roedd ein Hysbysiad Cydymffurfio terfynol yn adlewyrchu hyn. O ganlyniad, caiff ein sefydliad gyhoeddi adroddiadau yn Saesneg yn unig, ar ôl inni ystyried disgwyliadau'r gynulleidfa. Fel sefydliad, rydym wedi penderfynu cynnwys crynodeb dwyieithog ar gyfer ein dogfennau mwy cyhoeddus yn y categori hwn.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd Skype a chyfarfodydd tîm gyda Chynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg i egluro'r broses o drosglwyddo o'n Cynllun Iaith Gymraeg ni i Safonau'r Gymraeg, ac effaith gwneud hyn ar fusnes. Nod y cyfarfodydd oedd trafod meysydd y busnes a oedd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau, a chodi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau i sicrhau cydymffurfiaeth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd neu sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda gwasanaethau TGCh, y Tîm Caffael, y Tîm Cyfieithu, Rheolwyr Canolfannau Ymwelwyr, y Tîm Cymorth Busnes, y Tîm Digidol a Chyfathrebu, y Tîm Recriwtio, y Tîm Cyfleusterau, y Tîm Cyllid, y Tîm Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, y Grŵp Pencampwyr a'r Undebau Llafur.

Cynhaliwyd gwaith i sicrhau bod y system Adnoddau Dynol ganolog, sef MyNRW, yn gallu cofnodi ac adrodd am sgiliau iaith staff. Hyd yn hyn, mae 89% o staff wedi'u hasesu eu hunain a chofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y system. Mae hyn wedi helpu ein sefydliad i gynhyrchu ystadegau mwy cywir ynglŷn â sgiliau Cymraeg ein staff.

Cyflwynwyd y Safonau i'r Bwrdd Rheoli ym mis Mai 2016, a nodwyd newidiadau bach, ychwanegiadau a meysydd risg posibl. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2017 ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu o fewn y Safonau.

Ysgrifennwyd Polisi Safonau'r Gymraeg newydd, a oedd yn esbonio'n glir pa safonau y disgwylir i'n sefydliad ni gydymffurfio â nhw, a sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â phob un o'r Safonau unigol. Mae'r polisi'n cael ei gyhoeddi ar ein mewnwydd a'n gwefan.

Cafodd cyfarwyddyd staff, a oedd eisoes ar waith ar gyfer y Cynllun, ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau sydd eu hangen ar gyfer y Safonau. Mae'r cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer staff ar y fewnrwyd.

Cynhyrchwyd poster gan y Tîm Cyfathrebu, sy'n seiliedig ar y Canllaw Hanfodol i Safonau'r Gymraeg. Mae'r poster hwn yn amlinellu'r hyn mae angen i bob aelod o staff ei ystyried yn eu gwaith bob dydd, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Gall staff argraffu'r poster hwn i'w hatgoffa bob dydd. Hefyd, bydd posteri mwy manwl yn cael eu cynhyrchu'n fuan ar gyfer pob un o'r pwyntiau yn y Canllaw Hanfodol ac, unwaith eto, bydd y staff yn gallu argraffu'r rhain.

Cynhyrchwyd fideo dwy funud hefyd gan y Tîm Cyfathrebu a oedd yn egluro'r hyn y dylai pob aelod o staff ei ystyried bob dydd mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan o'u rôl. Mae'r fideo hefyd yn egluro'r cymorth sydd ar waith ar gyfer staff nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Lansiwyd y Safonau ar 25 Ionawr 2017, gyda'r polisi, cyfarwyddyd, posteri a fideo ar waith. Mae ein templedi brandio corfforaethol, sydd ar gael ar y fewnwyd, wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y Safonau.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2016–17

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn inni adrodd yn ôl am nifer o dargedau a darparu gwybodaeth fel yr amlinellir isod:-

1. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg

a) Adrodd yn erbyn targedau a bennir yn y Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg

Gweler ynghlwm (**Atodiad 1**), ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016–17, ynghyd â naratif ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn.

b) Gwasanaethau Rheng Flaen – data a gwybodaeth mewn perthynas â sgiliau iaith a darpariaeth wrth ddesgiau derbyn a chanolfannau cyswllt.

Mae gennym wyth swyddfa sydd â derbynfa gyhoeddus, a nifer o swyddfeydd eraill ledled Cymru nad oes ganddynt dderbynfeydd neilltuedig. Mae arwyddion swyddfa iaith Gwaith ar waith i hysbysu ymwelwyr ein bod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.

Mae manylion pob swyddfa ac argaeledd/sgiliau iaith staff derbynfa'n cael eu hamlinellu isod:-

[Swyddfa Aberystwyth](#) – Staff Derbydfa Llywodraeth Cymru – Dwyieithog
(Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn denantiaid yn y swyddfa, mae nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n gweithio yn swyddfa Aberystwyth a fyddai'n gallu trafod materion yn Gymraeg ag aelod o'r cyhoedd sy'n ymweld)

[Swyddfa Maes y Ffynnon, Bangor](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

[Swyddfa Llwyn Brain, Bangor](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl (caewyd y swyddfa hon yn ystod 2016, ac mae'r holl staff wedi adleoli i Swyddfa Maes y Ffynnon)

[Swyddfa Bwcle](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

[Tŷ Cambria, Caerdydd](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

[Plas yr Afon, Caerdydd](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn Lefel 1

[Llys Afon, Hwlfordd](#) – Dau aelod o staff, y ddau ohonynt yn Lefel 1

Maes Newydd, Llandarcy – Dau aelod o staff, un yn Lefel 1 ac un yn siaradwr Cymraeg rhugl

Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid – Mae saith aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl mewn tîm o 11.

Mae pob aelod o staff wrth ein desgiau derbynfa nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg wedi mynychu cwrs Cyfarch un diwrnod, ac maent yn gallu cwrdd ag ymwelwyr a'u cyfarch yn ddwyieithog.

Ym mhob un o'n swyddfeydd ni, mae gennym siaradwyr Cymraeg sy'n gallu trafod materion yn Gymraeg ag aelod o'r cyhoedd sy'n ymweld. Gyda'n Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg ni ar waith, bydd nifer ein siaradwyr Cymraeg yn cynyddu dros y blynnyddoedd nesaf ym mhob un o'n swyddfeydd ni.

Canolfan Ymwelwyr Ynys Las – Mae'r ganolfan ar agor o'r Pasg i fis Medi ac mae dau aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Canolfan Ymwelwyr Garwnant – Mae un aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg

Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian – Mae dau siaradwr Cymraeg rhugl a dau aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg

Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin – Mae pob un o'r 11 aelod o staff sy'n gweithio yn y Ganolfan Ymwelwyr yn siaradwr Cymraeg rhugl.

2. Rheoli a gweinyddu'r Cynllun/Safonau

- a) Adrodd am y gofyniad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cytundebau ac esbonio unrhyw drefniadau i adolygu neu i wella'r ddealltwriaeth a roddir i'r Gymraeg:-

Caffael

Mae'r gwaith o ddatblygu proses caffael newydd, o dan y Fframwaith Llywodraethu Caffael, yn parhau, ac mae'r cynnydd a wnaed yn unol â'r amserlen. Rydym yn parhau i sicrhau bod ein prosesau caffael wedi'u halinio â Datganiad Polisi Caffael Cymru (a gyhoeddwyd fis Mehefin 2015) a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus Ewrop 2015.

Er ein bod yn parhau i ddefnyddio rhai templedi etifeddol, mae cynnydd wedi'i wneud wrth alinio ein prosesau a gweithdrefnau caffael allweddol.

Yn ystod 2016–17, rydym wedi gwneud y canlynol:

1. Mabwysiadu Cynllun Dull y Farchnad ac Adroddiad Tendro ar gyfer pob pryniant gwerth dros £25k.

Mae Cynllun Dull y Farchnad yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer pob pryniant unigol ac mae'n gofyn i staff ystyried gofynion y Gymraeg lle mae'r contract yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu i staff. Felly, mae ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori, fel sy'n briodol, mewn manylebau contract. Mae dogfennau'r tendr yn cael eu hasesu, gan ddefnyddio'r rhestr wirio cyfieithu, i benderfynu a oes angen eu darparu'n ddwyieithog.

Yr Adroddiad Tendro yw'r adroddiad cyn dyfarnu contract sy'n gofyn i staff gadarnhau y bydd unrhyw amcanion iaith Gymraeg perthnasol, a nodir yng Nghynllun Dull y Farchnad, yn derbyn sylw o dan y contract arfaethedig newydd.

Hefyd, pa ofynion rheoli mae angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni gan y cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus.

2. Lansio cyfarwyddyd 'Sut i Brynu' ar gyfer staff trwy'r fewnwyd ar gyfer pryniannau o dan £25k. Mae'r cyfarwyddyd yn gofyn i staff ystyried gofynion y Gymraeg lle mae'r contract yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu i staff, ac i geisio cyngor gan Gyngorydd Polisi'r Iaith Gymraeg lle mae angen cymorth.
3. Parhau i ddefnyddio gwefan GwerthwchiGymru i hysbysebu'r holl gyfleoedd contract yn unol â chyrrff sector cyhoeddus eraill Nghymru. Rydym wedi mabwysiadu Safon newydd y Gymraeg sy'n nodi ei bod yn rhaid i bob hysbysiad o dan drothwy'r UE gael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg trwy borth GwerthwchiGymru.
4. Mae ein Rheolau Caffael wedi cael eu gwella a'u mabwysiadu. Mae'r rheolau'n nodi, wrth gynnal gweithgareddau caffael ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, ei bod yn rhaid i staff gydymffurfio â'r holl bolisiau a deddfwriaeth (mae hyn yn cynnwys ein Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg).
5. Datblygu a mabwysiadu Holiadur Cyn-gymhwyso a thempledi Gwahoddiad i Dendro sy'n datgan y canlynol:
 - rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg;
 - gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg neu yn Saesneg;
 - rhaid i gontractwyr gydymffurfio â'n Safonau Cymraeg pan fyddant yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu i staff ar ein rhan ni.

Mae amserlenni tendrau'r un peth, ni waeth a ydynt yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae pob cynigydd yn cael ei hysbysu am y penderfyniad ar yr un pryd.

- b) Dangos tystiolaeth bod proses lywodraethu fewnol fanwl ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg ar waith:-

Llywodraethu Mewnol

Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016–17 yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf ac mae'n gysylltiedig â'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014–17.

Mae ein targedau Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn, gan egluro sut mae'r sefydliad yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn egluro sut mae'r Cynllun Busnes yn cysylltu â'n Cynllun Corfforaethol 2014–17, ac yn manylu'r hyn y byddwn yn ei gyflawni i gynorthwyo yn y gwaith o gryfhau ein capasiti dwyieithog, a gwella ein gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a'n cydberthnasau â rhanddeiliaid a phartneriaid, trwy gyflawni ein Cynllun Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

Yn codi o'n Cynllun Busnes ni, mae gennym gasgliad newydd o fesuriadau perfformiad i adlewyrchu ein perfformiad – faint rydym wedi ei wneud, pa mor dda rydym wedi ei wneud, a beth yw'r canlyniadau. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol a bydd ein Bwrdd yn craffu ar berfformiad yn gyhoeddus o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

- c) Crynodeb o gwynion dilys a dderbyniwyd a'r camau a gymerwyd:-
Derbyniwyd pedair cwyn gan aelodau o'r cyhoedd, ac un ymholiad a gafodd ei gyhoeddi'n genedlaethol a oedd yn cwestiynu'r ffordd roeddem yn sillafu enw'r mynydd Cadair Idris.

Cwynion

Arolwg Llifogydd y Rhath

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas ag arolwg a gynhaliwyd gennym yn rhan o Gynllun Llifogydd y Rhath. Roedd y llythyrau a anfonwyd i hysbysu deiliaid tai ac i ofyn am adborth yn Saesneg yn unig, ac yn gofyn i ddeiliaid tai gofyn am gopi Cymraeg. Tynnodd yr achwynydd sylw i'r ffaith nad oedd hyn yn unol â'n hymroddiad yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd yr arolwg gan drydydd parti a oedd yn gweithredu ar ein rhan ni, ac nid oedd wedi glynu at yr ymroddiad yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Trafodwyd y mater â'r tîm o dan sylw, ac anfonwyd llythyr ymddiheuro'n diolch i'r achwynydd am dynnu ein sylw at y mater, yn egluro'r camau roeddem wedi'u cymryd yn fewnol, ac yn rhoi sicrwydd i'r achwynydd y byddai unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol yn cael ei hanfon yn ddwyieithog. Ni chymerwyd na derbyniwyd unrhyw gamau pellach.

Tocynnau Parcio Ceir Niwbwrch

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn tynnu ein sylw at y ffaith nad oedd y tocynnau parcio ceir a ddyroddir ar ein safle Niwbwrch yn hollol ddwyieithog.

Ymchwiliwyd i'r mater yn fewnol a thrafodwyd y mater â'r cyflenwr tocynnau.

Anfonwyd llythyr yn diolch i'r achwynydd am dynnu ein sylw at y mater ac yn nodi'r camau roeddem wedi'u cymryd yn fewnol i unioni'r mater wrth sicrhau bod y tocynnau a ddyroddir bellach yn llawn ddwyieithog. Ni chymerwyd na derbyniwyd unrhyw gamau pellach.

Ymateb Saesneg i ymholiad Cymraeg

Derbyniwyd ymholiad cychwynnol yn Gymraeg trwy e-bost at ein cyfeiriad e-bost ymholiadau cyffredinol, ac anfonwyd hwn at y tîm perthnasol iddynt roi sylw iddo. Ffoniodd yr achwynydd ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid i gwrso ymateb i'w ymholiad. At ddibenion ymdrin â'r ymholiad, anfonwyd drafft o'r ymateb arfaethedig ymlaen at yr achwynydd yn ystod y galwad trwy e-bost. Roedd yr ymateb arfaethedig yn Saesneg ac, o ganlyniad, anfonodd yr achwynydd e-bost pellach yn cwyno bod yr ymateb yn Saesneg ac, felly, nid oedd yn unol â'n hymroddiad i'r Polisi Iaith Gymraeg sydd ar waith.

Derbyniodd yr achwynydd ymddiheuriad dros y ffon, wedi'i ddilyn gan e-bost yn cydnabod y gŵyn a'n dyletswydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Cafodd ymateb terfynol i'r ymholiad cychwynnol ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i anfon at yr achwynydd trwy e-bost.

Atgoffwyd y staff o dan sylw am ein dyletswydd i ymateb i ymholiad Cymraeg yn y modd priodol ac am ein polisi yn gyffredinol. Ni chymerwyd na derbyniwyd unrhyw gamau pellach.

Ymholiad mewn perthynas â'n defnydd ni o sillafiad Cadair Idris

Gwnaethom gais i Bwyllgor Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri am ganiatâd i godi arwyddion, gan gyfeirio at Warchodfa Natur Cadair Idris, ym maes parcio Canolfan Ymwelwyr Ystradlyn, ac arnynt y geiriau "Cadair Idris". Yn ystod y cyfarfod, gofynnodd un o'r cynghorwyr lleol pwy oedd wedi newid enw'r mynydd o "Cader Idris" i "Cadair Idris".

Ymddangosodd nifer o erthyglau mewn amryw bapurau lleol newydd a hefyd ar wefan BBC Cymru Fyw. Gwnaethom gysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i geisio cyngor, ar ôl gwneud ein hymholiadau ein hunain gyntaf trwy edrych ar *Dictionary of Welsh Place Names (Hywel Wyn Owen a Richard Morgan)*, *Dringo Mynyddoedd Cymru (I. B. Rees)* a *The Welsh Peaks (W. A. Poucher)*, a oedd i gyd yn defnyddio'r sillafiad "Cadair". Mae'r sillafiad "Cadair Idris" wedi cael ei ddefnyddio ar y safle ers nifer o flynyddoedd yn dilyn cyngor Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg a fu, a gynghorodd ein sefydliad etifeddol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ar y pryd y dylid defnyddio'r sillafiad safonol "Cadair Idris".

Ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg, gan gyfeirio at nifer o lyfrau cyfeirio hanesyddol a geiriaduron sy'n egluro tarddiad yr enw, ac mae pob un ohonynt yn cyfeirio at y mynydd gan ddefnyddio'r sillafiad "Cadair". Roedd nodyn penodol a oedd yn cyfeirio at "Cadair Idris" yn *List of Welsh Place Names* Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n argymhell y dylid defnyddio sillafiad safonol "Cadair" pan fo hynny'n bosibl am fod y mynydd yn eiddo Cymru gyfan. Nododd y Comisiynydd hefyd yn ei hymateb y dylem fod yn ystyriol, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, o'r ffaith bod y sillafiad "Cader" yn cael ei ddefnyddio'n fwy lleol oherwydd tafodiaith yr ardal.

O ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar waith, gan gynnwys y ffaith bod y dogfennau cyfreithiol sy'n cyfeirio at y Warchodfa Natur hefyd yn defnyddio'r sillafiad "Cadair", a bod y sillafiad "Cadair" yn cael ei ddefnyddio ar fapiau Arolwg Ordans mae cerddwyr yn yr ardal yn cyfeirio atynt, penderfynwyd y dylid parhau i ddefnyddio'r sillafiad "Cadair".

Cwynion a dderbyniwyd gan staff yn fewnol

Rydym wedi derbyn cwynion gan staff mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â'n polisi iaith mewnol wrth anfon e-byst ac wrth drefnu a chynnal cyfarfodydd mewnol. Tynnwyd sylw at ein polisi iaith mewnol mewn sesiynau briffio misol rheolwyr ac mae'r diffyg cydymffurfio wedi cael ei drafod â'r unigolion o dan sylw.

Codwyd pryderon nad yw system Gyllid/Adnoddau Dynol ganolog MyNRW yn caniatáu i staff gofnodi gwybodaeth yn Gymraeg, er bod rhyngwyneb y system ar gael yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rhan o'r blaenoriaethau ar gyfer uwchraddio'r system yn 2017–18.

- d) Tystiolaeth o'r trefniadau i sicrhau ansawdd y cynnwys Gymraeg ar ein gwefan gorfforaethol ac unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella'r cynnwys:-

Gwefan

Rydym yn parhau i sicrhau bod yr holl gynnwys ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Yn ddiweddar, rydym wedi ailddylunio ein gwefan ac, yn rhan o'r broses, rydym wedi edrych ar ffyrdd o wneud yn siŵr bod y wefan yn trin y ddwy iaith yn gydraddol, gan ei gwneud yn glir bod cynnwys a gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017–18, bydd gwasanaethau ar-lein yn cael eu datblygu ymhellach, gan gynnwys mapiau ar-lein. Dylunnir y rhyngwyneb ar gyfer y mapiau hyn i fod yn ddwyieithog pan fo hynny'n bosibl. Mewn rhai achosion, ni fydd data a gyflwynir yn cael ei gyfieithu ac ni fydd yn cael ei gyfieithu os yw'n cael ei fenthycu o dan drwydded. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio ar wneud rhagor o ddata ar gael yn ddwyieithog wrth inni ddatblygu rhagor o fapiau.

Rydym yn parhau i sicrhau ein bod yn cyhoeddi ein cynnwys corfforaethol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac rydym yn chwilio am ffyrdd newydd o wella sut rydym yn darparu gwybodaeth yn barhaus.

Mae nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio ein gwasanaethau Cymraeg ar-lein yn parhau i fod yn isel iawn. Byddem yn croesawu gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a hefyd gyda phartneriaid i gydweithio ar ymgyrch a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

Sgiliau iaith Gymraeg

a) Gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu ac adroddiad am y data:-

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ofyn i staff asesu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain ac adrodd am y canfyddiadau ar ein system Gyllid/Adnoddau Dynol ganolog, sef MyNRW.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd 87% o'n staff ni wedi asesu eu sgiliau iaith Gymraeg ac mae ein cofnodion yn dangos y canlynol:-

Sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff – Hunanddatganiad:-

Dim datganiad wedi'i gwblhau	Dim sgiliau iaith Gymraeg	Gallu ynganu ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac enwau lleoedd Lefel 1	Gallu ffurfio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl yn Gymraeg ar lafar Lefel 4	Rhugl yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
202	73	705	363	103	182	219
10.9%	4.4%	42.9%	22.1%	6.3%	11.1%	13.3%

Sgiliau iaith Gymraeg staff o fewn pob cyfarwyddiaeth:-

Gallu yn y Gymraeg	Dim datganiad wedi'i gwblhau	Dim sgiliau iaith Gymraeg	Gallu ynganu ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac enwau lleoedd Lefel 1	Gallu ffurfio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn hyderus Lefel 3	Rhugl yn Gymraeg ar lafar Lefel 4	Rhugl yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
	202	73	705	363	103	182	219
	10.9%	4.4%	42.9%	22.1%	6.3%	11.1%	13.3%
Swyddfa'r Prif Weithredwr						1	1
Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	18	13	75	42	9	21	26
Llywodraethiant	1	1	4	4	2	1	
Cyfathrebu		1	7	6	1	3	20
Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	48	17	186	106	33	33	40
Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl			13	2	1	3	3

Gweithrediad au Gogledd a Chanolbarth Cymru	76	11	168	98	42	85	100
Gweithrediad au De Cymru	59	29	246	102	14	32	28
Portffolio Trawsnewid		1	6	3	1	3	1
	202	73	705	363	103	182	219

- b) Tystiolaeth o'r buddsoddiad mewn hyfforddiant iaith Gymraeg ac esboniad o gamau eraill a gymerwyd i wella sgiliau iaith y gweithlu:-

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Dyma drydedd flwyddyn ein Rhaglen Hyfforddiant iaith Gymraeg, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 315 o staff yn derbyn cymorth i fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau. Mae 54 aelod o staff wedi sefyll arholiadau ar wahanol lefelau, a phasiodd pob un ohonynt yr arholiadau hynny. Rhoddwyd amser i ffwrdd i'r holl staff sefyll yr arholiad, gyda rhai'n cymryd absenoldeb astudio yn unol â'n Cyfarwyddyd Hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae 14 cwrs hyfforddiant Cymraeg mewnol wedi cael eu cynnal gyda thiwtor yn dod i'n swyddfeydd. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r cyfraddau o bobl a dynnodd allan yn isel iawn. Anfonwyd ffurflenni gwerthuso i'n holl ddysgwyr ni'n gofyn am eu hadborth ar ansawdd y sesiynau. Nid oedd unrhyw sylwadau negyddol ar y ffurflenni a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd canran uchel yn gwerthfawrogi'r cyfle a'r cymorth a gawsant i ddysgu Cymraeg yn ystod oriau gwaith. Ers mis Medi 2016, mae'r rhaglen wedi cefnogi staff i ddysgu Cymraeg bob wythnos fel a ganlyn:-

Mae 25 aelod o staff yn mynychu dosbarth Dechreuwyr (Mynediad 1)

Mae 69 aelod o staff yn mynychu dosbarth Sylfaen (Sylfaen 1)

Mae 20 aelod o staff yn mynychu dosbarth Canolradd (Canolradd 1)

Mae 14 aelod o staff yn mynychu dosbarth Uwch (Uwch 1)

Rydym hefyd yn peilota cwrs Dechreuwyr/Mynediad ar-lein ar gyfer un aelod staff. Mae hyn wedi gweithio'n dda iawn ar gyfer yr unigolyn a byddwn yn monitro'r cynnydd bob tri mis. Byddwn yn ystyried datblygu dysgu ar-lein ymhellach eleni, i alluogi staff i ddatblygu ac i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg yn fwy rheolaidd.

Cynhaliwyd pum cwrs Cyfarch yn ystod y flwyddyn, a mynychodd 28 aelod o staff. Cynhaliwyd tri chwrs yng Nghaerdydd, un ym Mangor ac un yn y Trallwng.

Cynhaliwyd tri chwrs Canolradd yn ein swyddfeydd yn Aberystwyth, Caerdydd a Bangor, a mynychodd 27 aelod o staff. Cafodd y cwrs hwn ei deilwra i gynnwys terminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru. Bu'r Cydlynnydd Hyfforddiant iaith Gymraeg yn gweithio gyda'r cyfranogwyr a'r tiwtor i ddatblygu ac i ddylanwadau ar gynnwys y cwrs. Unwaith eto, roedd pob mynychwr a gwblhaodd ffurflen werthuso o'r farn bod y cwrs yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd cwrs ysgrifennu ar gyfer ein siaradwyr Cymraeg rhugl, Cwrs Graenus, yn ein swyddfa yn Nhŷ Cambria. Mynychodd naw o bobl y cwrs hwn gyda dau aelod arall o staff yn mynychu'r un cwrs yn allanol.

Cafodd saith aelod o staff gymorth i fynychu'r cwrs Blwyddyn Newydd, Ysgol Galan, a bu nifer o'n staff ni'n mynychu cyrsiau adolygu.

Bu 11 aelod o staff yn mynychu cwrs Magu Hyder trwy gydol y flwyddyn.

Roedd 13 aelod o staff yn mynychu cwrs Gloywi Iaith am ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o saith wythnos. Cafodd y cwrs hwn ei theilwra hefyd i gynnwys terminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru a gofynnwyd i staff gyflwyno dau bwnc yr hoffent iddynt gael eu cynnwys yn y cwrs i sicrhau ei berthnasedd i'w rolau ymhellach.

Cynhaliwyd dau gwrs Gloywi Iaith yng Nghaerdydd a Bangor gyda 29 aelod o staff yn mynychu.

Mae un aelod o'n Tîm Gweithredol ni'n dysgu Cymraeg ac, ar hyn o bryd, mae'n mynychu cwrs Mynediad wythnosol trwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd. Mynychodd tri aelod o'n Bwrdd ni gwrs Cyfarch un dydd, gydag aelodau eraill o staff. Mae dau aelod o'r Bwrdd yn mynychu gwersi wythnosol ar lefel Mynediad a lefel Sylfaen.

Trwy hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru am gyflenwr i ddarparu dosbarthiadau mewnol, gwnaethom lwyddo i arbed £10k. Mae hyn wedi'n galluogi ni i gefnogi rhagor o staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Cynllun Mentora

Mae ymwybyddiaeth o'n Cynllun Mentora wedi cael ei chodi trwy ein sianeli cyfathrebu yn y Cyfarfod Rheolwyr Misol, ar Yammer, a hefyd ar hysbysfyrdau iaith Gymraeg yn ein holl swyddfeydd. Rydym wedi canolbwyntio sylw ar fanteision defnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac ymarfer trwy gael sgyrsiau anffurfiol â siaradwyr Cymraeg rhugl.

Hyd yn hyn, mae 20 dysgwr wedi cofrestru ar gyfer ein Cynllun Mentora ac mae 27 aelod o staff wedi cynnig bod yn fentoriaid. Anfonir ffurflen werthuso at ddysgwyr yn gofyn iddynt am eu barn ar y cynllun a pha gymorth pellach sydd ei angen arnynt. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sesiynau mentora Skype, a fydd yn gwneud y cynllun yn fwy hygyrch ac yn galluogi staff i fynychu sesiynau'n fwy rheolaidd.

Gwobrau

Roeddem yn falch iawn o ennill Cleient y Flwyddyn Cymraeg yn y Gweithle gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Aberystwyth ym mis Medi 2016. Dyma'r ail dro inni ennill y wobwr hon, gan inni ennill un y flwyddyn flaenorol gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd. Mynychodd tri o'n dysgwyr ni'r seremoni i dderbyn y wobwr. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar wefan Canolfan Cymraeg i Oedolion Aberystwyth a chyhoeddwyd erthygl ar y wobwr ar ein mewnwydd ac ar Yammer.

Hyrwyddo Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Derbyniodd pob aelod newydd o staff e-bost gan y Cydlynnydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg, gyda manylion ein Cynllun/Safonau a'r cyfarwyddyd sydd ar waith. Roedd

yr e-bost hefyd yn gofyn i'r aelod newydd o staff asesu eu sgiliau iaith Gymraeg a chofnodi'r canfyddiadau ar MyNRW.

Mae ein Timau Cyfleusterau wedi sicrhau bod lle'n cael ei greu ar hysbysfyrddau ar gyfer hysbysiadau Cymraeg ym mhob un o'n swyddfeydd ni. Defnyddir y rhain i hysbysebu digwyddiadau hyfforddi sydd ar y gweill a manylion aelodau o'r Grŵp Pencampwyr, a hefyd i hysbysebu'r Cynllun Mentora. Mae hyn wedi bod yn ddull effeithiol i hysbysu staff am gyrсияu hyfforddiant Cymraeg sydd ar y gweill.

I ddathlu Dydd Santes Dwynwen, postiwyd dolen i stori Dwynwen ar Yammer, ac wedyn gwnaeth y Pencampwyr gylchredeg hon o fewn eu cyfarwyddiaethau.

Yn rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, cyhoeddwyd pennawd bras ar y fewnrwyd yn tynnu sylw'r holl staff at Ddydd Gŵyl Dewi. Rhoddwyd poster a dolen hefyd ar Yammer gyda ffeithiau am Ddewi Sant.

c) Tystiolaeth o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:-

Cynhaliwyd pum cwrs Cyfarch yn ystod y flwyddyn, a mynychodd 28 aelod o staff – mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn rhan o'r cwrs un dydd. Cynhaliwyd tri chwrs yng Nghaerdydd, gydag un ym Mangor a'r llall yn y Trallwng.

3. Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg

a) Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer asesu effaith polisïau ar yr iaith Gymraeg, ac unrhyw gamau a gymerwyd i adolygu'r trefniadau i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal:-

Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016–17, daeth rhai darnau mawr o ddeddfwriaeth i rym. Rydym yn croesawu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu deddfwriaeth fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, sydd yn eu tro'n gwella amgylchedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd ein hegwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein galluogi i gyflawni ein gwaith yn unol â'r ddwy Ddeddf hyn i sicrhau ein bod yn meddwl rhagor am y tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau, yn ogystal â chyrff statudol eraill, a cheisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig mewn modd cynaliadwy.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd yn elfen ganolog wrth sicrhau busnes llwyddiannus, ac rydym am sefydlu ein gwaith ar gydraddoldeb wrth galon y ffordd rydym yn cynllunio ac yn cyflenwi ein gwasanaethau. Rydym wedi gweithio'n galed i ddeall ein gweithlu ein hunain yn well ac i roi'r un pwys i'r Gymraeg ag i grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r angen i ystyried y Gymraeg wedi cael ei gynnwys ar y ffurflen Asesu Effaith ar Gydraddoldeb a'r cyfarwyddyd, gan sicrhau bod yr iaith yn ffurfio rhan o'r broses sgrinio ar gyfer yr holl bolisïau, cynlluniau a phrosiectau. Mae'r Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb wedi sicrhau bod Cynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg yn gweld pob Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn gwneud sylwadau a rhoi awdurdod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd 21 asesiad, gan gynnwys tri Adolygiad o Uwch-reolwyr ac wyth Adolygiad Maes Busnes.

- b) Gwybodaeth am y camau a gymerwyd i ehangu'r gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg:-

Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'r Safonau

Tynnwyd sylw at y Cynllun a oedd ar waith a'r Safonau a oedd yn yr arfaeth ar nifer o achlysuron i godi ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau fel sefydliad cyhoeddus, sy'n cael eu rhestru fel a ganlyn:-

Nodyn Misol Rheolwyr

- Tynnu sylw at ein tudalen Dysgu a Datblygu newydd ar ein mewnwyd, sy'n cynnwys tudalen ar gyfer Hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- Gofyn i'r holl reolwyr sicrhau bod eu staff yn asesu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain a'u cofnodi ar MyNRW, ein system Gyllid/Adnoddau Dynol ganolog.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Safonau sydd yn yr arfaeth, gan gynnwys dolen i'r Hysbysiad Cydymffurfio.
- Rhestr o gamau ar gyfer rheolwyr i sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r rhain yn barod am y Safonau.
- Atgoffa staff sy'n dysgu Cymraeg i gwblhau ffurflen cais am hyfforddiant mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.

Erthyglau ar ein mewnwyd

- Erthygl yn egluro'r broses o drosglwyddo o weithredu Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg. Rhestru'r amserlen ar gyfer pennu Safonau, fel y'u cyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Egluro'r hyn mae angen i'r sefydliad/staff ei wneud rhwng mis Ebrill 2016 a'r Safonau'n dod yn weithredol ym mis Ionawr 2017.
- Erthygl ar ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg.
- Cyhoeddwyd Hysbysiad Cydymffurfio a thynnwyd sylw ato ar ôl ei dderbyn.
- Cyhoeddwyd erthygl ar y defnydd o Bing/Word, Cysill a Cysgeir i godi ymwybyddiaeth staff o'r pecyn cymorth, gan amlinellu manteision ac anfanteision y system.
- Crëwyd polisi Safonau'r Gymraeg, cyfarwyddyd i staff, posteri a fideo yn barod am 25 Ionawr 2017, pan ddaeth y Safonau'n weithredol. Erthygl ar fanteision Cynllun Mentora'r Iaith Gymraeg wedi'i hysgrifennu gan ddau ddysgwyr.
- Tynnwyd sylw at y Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg i egluro i staff y cyrsiau sydd ar gael.
- Enillodd Cyfoeth Naturiol Cymru wobwr gan Ganolfan Gymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru.
- Dydd Gŵyl Dewi.

Yammer

- Diwrnod Shwmae.
- Dydd Santes Dwynwen.
- Dydd Gŵyl Dewi.

- Hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- Gwobr gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru.
- Cynllun Mentora.
- Gair yr wythnos/dydd.

4. Dadansoddi Perfformiad

a) Nodi risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:-

Risgiau

- Mae rhyngwyneb system MyNRW ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond ar hyn o bryd mae gan staff yr opsiwn i gofnodi gwybodaeth ar y system yn Saesneg yn unig. Mae Safon 100 yn ei gwneud yn ofynnol galluogi staff i gofnodi gwyliau, salwch ac oriau hyblyg yn Gymraeg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg mewnol yn nodi y bydd yr holl ffurflenni ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ystod 2017–18, bydd system MyNRW yn cael ei huwchraddio, a gofynnwyd i'r gofyniad hwn gael ei gynnwys yn y gwaith uwchraddio.
- Byddwn yn parhau i fonitro'r risgiau i'n targedau ni ar gyfer Safonau'r Gymraeg ar wahanol lefelau. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yn cynnwys yr iaith Gymraeg ac yn amlinellu'r rôl mae'r gyfarwyddiaeth yn ei chwarae wrth gyflawni canlyniadau'r Cynllun Busnes.
- Mae Adolygiadau Maes Busnes a Rhaglenni Newid yn parhau ac mae'r iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i nodi ac i gyfyngu unrhyw risg o golli ein capasiti dwyieithog mewn unrhyw raglen newid. Cytunir ar lefelau iaith Gymraeg o fewn rhaglenni newid yn unol â'n cyfarwyddyd Staffio a Recriwtio i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog heddiw ac yn y dyfodol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Dylid ystyried sgiliau iaith Gymraeg staff mewn unrhyw gynlluniau ymadael gwirfoddol yn y dyfodol. Gallai colli siaradwyr Cymraeg trwy gynlluniau ymadael gwirfoddol arwain atom yn methu â darparu gwasanaeth dwyieithog yn y dyfodol ac at ddiffyg cydymffurfiaeth bosibl â Safonau'r Gymraeg.
- O ganlyniad i waith Dylunio Sefydliadol sy'n cael ei gynnal trwy gydol y busnes, mae nifer o swyddi gwag yn cael eu hysbysebu fel penodiadau am gyfnod penodol o 100 wythnos. Yn aml, mae angen llenwi'r rolau hyn fel mater o frys am resymau sy'n ymwneud â dilyniant busnes. Gall hyn effeithio ar yr anghenion iaith Gymraeg sy'n cael eu hasesu ar gyfer y swyddi hyn, o ganlyniad i hyd y contract. Oni bai bod deiliad y swydd yn ymdrin â'r cyhoedd yn ddyddiol/rheolaidd, hysbysebwr swyddi ar Lefel 1, a defnyddir sgiliau iaith Gymraeg y tîm uniongyrchol/ehangach i ymdrin ag ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r swydd yn y tymor byr. Mae hyn yn unol â'r cyfarwyddyd Staffio a Recriwtio sydd ar waith gennym.

Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:-

- Cynnal archwiliadau mewnol o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion y Safonau trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, sianeli cyfathrebu mewnol a'r Grŵp Pencampwyr.
- Sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn unrhyw waith uwchraddio ar system MyNRW.
- Gweithio gyda'r Tîm Caffael i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Gymraeg mewn gweithdrefnau a phrosesau rheoli contractau.

- Trefnu rhagor o hyfforddiant iaith Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig sy'n benodol i'r gweithle.
- Datblygu'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg ar-lein i staff ymhellach.
- Parhau i annog ein holl staff i asesu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain a'u cofnodi ar MyNRW.
- Gweithio gyda'r Tîm Brandio i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried a hefyd ei bod yn cael ei chynnwys ar yr holl dempledi.
- Bydd y Tîm Cyfleusterau yn archwilio cydymffurfiaeth arwyddion Cyfoeth Naturiol Cymru â Safonau'r Gymraeg yn ein holl adeiladau, yn rhan o'u gwiriadau a'u prosesau monitro rheolaidd.
- Yn rhan o brosiect iaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, yn fuan byddwn yn paratoi holiadur syml ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ein holl ddesgiau derbynfa a Chanolfannau Ymwelwyr.
- Bydd cwrs ar ystyriaethau'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau'n cael ei gynnal ym mis Mai 2017 ar gyfer staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â llunio polisïau.
- Datblygu modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.
- Datblygu ac ymchwilio i ragor o becynnau cymorth ar gyfer ein siaradwyr Cymraeg a'n dysgwyr ni.
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu llyfr poced o dermau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol a fydd yn cynnwys terminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn yn ceisio cynnwys ynganiad ffonetig cyfarchion pob dydd defnyddiol i helpu ein staff pan fyddant yn cwrdd â phobl eraill a'u cyfarch.

b) Enghreifftiau o arferion da perthnasol:-

- Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn aelod. Fel sefydliad, roeddem yn falch iawn derbyn y gwahoddiad hwn, ac rydym yn llawn gefnogi gwaith y Gymdeithas ac yn gwerthfawrogi'r cyngor a roddir inni pan fydd angen ar aelodau o'n Tîm Cyfieithu ni, a dau ohonynt yn aelodau llawn.
- Mae ein gwefan wedi cael ei hailddylunio'n ddiweddar. Roedd ystyriaethau'r Gymraeg yn ffurfio rhan o'r broses o fewn y gwaith hwn.
- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i sicrhau gwasanaeth Cymraeg fel rhan o'r Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd ledled y DU.
- Mae gwaith wedi cael ei gynnal i wella ein gwasanaeth rhybudd llifogydd byw, amser go iawn, ar ein gwefan i sicrhau bod rhybuddion Cymraeg yn cael eu lanlwytho ar yr un pryd â rhybuddion Saesneg. Mae brawddegau amser go iawn wedi cael eu lanlwytho o Bing Translate, a fydd yn gwneud gwaith y Tîm Rhybudd Llifogydd yn haws o lawer ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon ar gyfer y cyhoedd. Mae hefyd botwm adborth y gall y cyhoedd ei ddefnyddio os nad ydynt yn hapus gyda'r cyfieithiad a roddir. Bydd hyn yn ein helpu i wella ein gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn y dyfodol.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bartner yng nghynllun Esgyn/Lift Llwydraeth Cymru, sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y rhai nad ydynt wedi bod mewn gwaith neu hyfforddiant am chwe mis, ac sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag cael swydd. Rhoddir cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o fewn y cynllun hwn.
- Cyfarwyddyd newydd ar gael i helpu staff i drefnu digwyddiadau cyhoeddus a chynadledau.

- Derbyniodd pob aelod newydd o staff e-bost gan y Cydlynnydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg, gyda manylion ein Cynllun/Safonau a'r cyfarwyddyd sydd ar waith. Roedd yr e-bost hefyd yn gofyn i'r aelod newydd o staff asesu eu sgiliau iaith Gymraeg a chofnodi'r canfyddiadau ar MyNRW.
- Mae Cynghorydd Polisi'r Iaith Gymraeg a'r Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod y Gymraeg yn ffurfio rhan o'r broses Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd neu bolisi sydd wedi cael ei ddiwygio.

c) Tystiolaeth o'r ymdrech i fonitro ansawdd y gwasanaeth Cymraeg neu gasglu barn defnyddwyr:-

- Mae ystadegau wedi dangos bod 30% o'r galwadau a dderbyniwyd yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn derbyn sylw yn Gymraeg oherwydd natur ein gwaith a'r ymgyrchoedd sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oes unrhyw waith monitro neu gasglu barn wedi cael ei wneud hyd yn hyn.
- Yn rhan o brosiect iaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, yn y dyfodol agos byddwn yn paratoi holiadur syml ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ein holl ddesgiau derbynfa a Chanolfan Ymwelwyr.

5. Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg Gwasanaethau Contract – Cafodd canran o gontractau sampl eu monitro am gydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg.

Gwasanaethau Wyneb yn Wyneb – Nifer a chanran y swyddi mewn derbynfeydd, canolfannau cyswllt neu siopau un stop lle nodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol, a'r ganran a gafodd eu llenwi gan aelod dwyieithog o staff.

Nodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer 50% o'r swyddi yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid. Mae naw aelod o staff (69%) sy'n gweithio yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn ymdrin â galwadau sy'n dod i mewn o'r cyhoedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl ar Lefel 4 a Lefel 5.

Adnoddau Dynol a Sgiliau –

1. Nifer a chanran y staff (rhugl a dysgwyr) a dderbyniodd hyfforddiant iaith Gymraeg i ennill cymhwyster penodol:-
 - Pasiodd 43 aelod o staff eu cymhwyster Mynediad
 - Pasiodd deg aelod o staff eu cymhwyster Sylfaen
 - Pasiodd dau aelod o staff eu cymhwyster Canolradd
 - Derbyniodd 55 aelod o staff (2.98%) hyfforddiant iaith Gymraeg i ennill cymhwyster penodol. Mae hyn wedi cynyddu o 43 aelod o staff (2.38%) y llynedd.
2. Nifer a chanran y staff a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg:-
Derbyniodd 28 aelod o staff (1.52%) hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.

Cynllun Gweithredu 2016–17

Adran	Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Camau a Gymerwyd
2	Darparu Gwasanaethau		
	Cynnal adolygiad o gapasiti dwyieithog systemau TGCh	Ebrill 2016 – Mawrth 2017	Mae systemau TGCh wedi cael eu hasesu am gapasiti dwyieithog wrth i'r cytundebau lefel gwasanaeth blaenorol ddod i ben gyda'u sefydliadau cyrff etifeddol. Mae'r holl systemau TGCh newydd a'r rhai sydd wedi cael eu diweddarau'n destun asesiad capasiti dwyieithog, sydd bellach ar waith.
	Diwygio'r cyfarwyddyd Darparu Gwasanaeth i staff yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg	Ionawr 2017	Mae cyfarwyddyd ar waith ac yn cael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd
3	Llunio Polisiâu		
	Hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau	Mawrth – Mehefin 2017	Trefnwyd dau gwrs ar yr hyn mae angen ei ystyried ynglŷn â'r iaith Gymraeg wrth lunio polisiâu a gwneud penderfyniadau, yng ngoleuni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
	Polisi Safonau'r Gymraeg Newydd a chyfarwyddyd i staff	Ionawr 2017	Mae Polisi Safonau'r Gymraeg Newydd a chyfarwyddyd i staff ar waith ac ar gael ar y fewnrwyd. Mae'r polisi ar gael

			i'r cyhoedd ar ein gwefan.
4	Gweithredol		
	<p>Parhau â'r Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg</p> <p>Sicrhau bod yr holl staff nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg yn mynychu cwrs Cyfarch un diwrnod</p> <p>Cwrs hyfforddi ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg ar lefel Canolradd, gan ddefnyddio'r cwrs Cymraeg yn y Gweithle a ddatblygwyd i gynnwys terminoleg Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Cyrsiau Gloywi Iaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl i wella eu sgiliau iaith ymhellach</p> <p>Cynllun Mentora</p> <p>Datblygu tudalen iaith Gymraeg ar y fewnwyd gyda rhagor o</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Yn parhau yn ôl yr angen</p> <p>Yn parhau yn ôl yr angen</p> <p>Yn parhau yn ôl yr angen</p> <p>Yn parhau</p> <p>Rhagfyr 2016</p>	<p>Derbyniodd 28 aelod o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth yn rhan o'r cwrs Cyfarch un diwrnod. Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei drefnu yn ystod 2016–17 i hwyluso cwrteisi ieithyddol sylfaenol</p> <p>Mynychodd 27 aelod o staff y cwrs Defnyddio Cymraeg yn y Gweithle. Datblygwyd y cwrs hwn gan ein Cydlynnydd Hyfforddiant Iaith Gymraeg mewn trafodaeth â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru.</p> <p>Mae 42 aelod o staff wedi mynychu cyrsiau Gloywi Iaith neu gyrsiau Cymraeg Graenus. Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei drefnu yn ystod 2016–17 i leihau'r ddibyniaeth ar y Tîm Cyfieithu.</p> <p>Mae 20 aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg wedi cofrestru ar gyfer ein Cynllun Mentora, ac mae 27</p>

	<p>ddeunyddiau cymorth ar gyfer dysgwyr</p> <p>Rhagor o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol</p> <p>Bydd staff yn asesu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain a'u cofnodi ar MyNRW</p> <p>Diwygio'r Cyfarwyddyd Gweithredol i staff yn unol â Safonau'r Gymraeg</p> <p>Sicrhau bod Polisi Iaith Mewnol ar waith yn unol â Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Yn parhau</p> <p>Ionawr 2017</p> <p>Ionawr 2017</p>	<p>aelod arall o staff wedi gwirfoddoli i fod yn fentoriaid.</p> <p>Crëwyd tudalen newydd o fewn adran Dysgu a Datblygu'r fewnwyd gydag adnoddau a gwybodaeth am y rhaglen hyfforddi sydd ar gael i'n dysgwyr ni.</p> <p>Mae ein holl wybodaeth i staff yn ddwyieithog</p> <p>Bellach mae 1,645 o'n staff ni wedi asesu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain ac wedi'u cofnodi ar ein system ganolog, sef MyNRW</p> <p>Mae cyfarwyddyd ar waith ac yn cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd.</p> <p>Mae polisi ar waith ac yn cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd.</p>
5	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg		
	<p>Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun/Safonau a'r Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg</p>		<p>Mae'r Cynllun ar y fewnwyd, yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Rheolwyr Misol ac ar Yammer i godi ymwybyddiaeth.</p> <p>Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn copi o'r</p>

			<p>Cynllun/Safonau a Chyfarwyddyd Hyfforddiant Iaith Gymraeg</p> <p>Mae templedi brandio dwyieithog ar gael at ddefnydd staff. Mae'r llinell wybodaeth yn llofnod e-bost yr holl staff yn gwahodd gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae pobl teitl swydd yn ddwyieithog. Mae siaradwyr/dysgwyr Cymraeg yn gwisgo'r symbol "Iaith Gwaith", sy'n datgan lefel eu rhuglder</p> <p>Mae posteri Iaith Gwaith wrth bob desg dderbynfa</p>
6	Monitro a Chadw Cofnodion		
	<p>Cofnodi ac adrodd am gydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg/Safonau'r Gymraeg</p> <p>Adroddiad Blynyddol at y Tîm Uwch-reolwyr a Chomisiynydd y Gymraeg</p>		<p>Mae Hysbysiad Cydymffurfio wedi cael ei gynnwys yn ein Hadroddiad Monitro Blynyddol 2016–17</p> <p>Bydd yr adroddiad yn barod ym mis Gorffennaf 2017</p>